



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys i'r adroddiad

Cyflwr Plismona: Asesiad Blynyddol 2021 o Blismona yng Nghymru a Lloegr

Yr wyf wedi darllen adroddiad terfynol Syr Tom Winsor fel Prif Arolygydd Heddlu Ei Mawrhydi â diddordeb. Yr wyf wedi fy nghalonogi bod nifer o'r pwyntiau a godwyd yn cadarnhau'r cyfeiriad strategol yr wyf wedi gosod ar gyfer ardal Dyfed-Powys am y 4 blynedd nesaf. Fy nhair blaenoriaeth yw:

1. Sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cydnabod a'u cefnogi, gan deilwra ymatebion i'w hanghenion unigol.
2. Atal niwed i unigolion a chymunedau a achosir drwy drosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bregusrwydd.
3. Gweithio gyda phartneriaid, cymunedau a dioddefwyr i wella hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

Isod, tynnaf sylw at rai o'r prif themâu o'r adroddiad a'm hymrwymiaidau.

Ymyrraeth gynnar

Yr wyf wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu ymagwedd wedi'i theilwra tuag at weithio gydag oedolion ifainc sy'n cyflawni troseddau lefel is, gan sicrhau y gellir cyfeirio'r unigolion hyn oddi wrth y system cyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn cynnwys darparu arian grant ar gyfer sefydliadau bach sy'n medru bodloni dyheadau ac anghenion amrywiol oedolion ifainc mewn ffyrdd creadigol.

Sicrhau bod gwasanaethau'n rhyddhau eu cyfrifoldebau

Byddaf yn galw ar ddyletswydd statudol partneriaid eraill i ddarparu cymorth priodol ar gyfer pobl ifainc.

Ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch penderfyniadau blaenoriaethu

Yr wyf wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd yn fy nghynllun, ac un o'm gwerthoedd ategol yw "ymgysylltu'n eang". Drwy fy Fforymau Ymgysylltu â Phobl Ifainc a Dioddefwyr, byddaf yn rhoi cyfleoedd i'r rhai sydd â phrofiad byw gymryd rhan mewn trafodaethau lleol ynglŷn â blaenoriaethau cyfiawnder troseddol a chyd-ddylunio gwasanaethau lle bo'n briodol.

Byddaf hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol gael eu clywed, rhannu eu barn a llunio polisïau.

Atal

Un canlyniad rwyf wedi'i osod o dan fy ail flaenoriaeth yw mabwysiadu ymyrraeth gynnar ac ymagwedd datrys problemau er mwyn mynd i'r afael ag achosion craidd trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddwn yn mesur ein llwyddiant drwy werthuso gwasanaethau atal ar gyfer pobl ifainc sy'n effeithiol o ran lleihau niwed.

Plismona Bro

Y canlyniad cyntaf rwyf wedi'i osod o dan yr ail flaenoriaeth yw i Heddlu Dyfed-Powys ddarparu gwasanaethau plismona amlwg a rhagweithiol, yn y byd corfforol a'r byd seiber. Y mesur fyddaf yn ceisio arddangos llwyddiant yn hyn fydd cymunedau mwy diogel drwy lai o ofn trosedd.

Mynd i leoliad pob trosedd ddifrifol ac ymchwilio iddi

Yr wyf wedi nodi fy nisgwylid i Heddlu Dyfed-Powys gyflawni'r ddau fesur llwyddiant perthnasol canlynol er mwyn atal niwed:

- Gostyngiad mewn trais yn erbyn menywod a merched.
- Gostyngiad yn y bygythiad o Droseddau Trefnedig Difrifol a chamfanteisio.

O dan fy nhrydedd flaenoriaeth, yr wyf hefyd wedi gosod y dyhead ar gyfer canlyniadau cyfiawnder troseddol mwy llwyddiannus, yn arbennig mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched.

Chwilio'n rhagweithiol am droseddau cudd a gweithio i gynyddu hyder dioddefwyr i adrodd a rhoi tystiolaeth

Fy mhrif flaenoriaeth yw sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hadnabod a'u cefnogi, a theilwra ymatebion i'w hanghenion unigol. Golyga hyn ein bod ni'n gwrandao ar farn dioddefwyr ac yn rhoi profiad cadarnhaol iddynt, waeth pa beth bynnag yw'r canlyniad.

Yr wyf wedi nodi'r disgwylid y bydd y Prif Gwnstabl, partneriaid a'm swyddfa'n arddangos:

- Dysgu drwy brofiad goroeswyr i hysbysu arfer yn y dyfodol.
- Arloesedd i gynyddu cyfleoedd adrodd ar gyfer dioddefwyr.
- Pa mor dda mae dioddefwyr troseddau rhywiol difrifol a throseddau casineb yn cael eu cefnogi.

Ymgysylltu'n dosturiol a sensitif â dioddefwyr

Drwy fodloni ein hymrwymiaadau i'r Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion, rwy'n gobeithio cyflawni gostyngiad yng nghyfran y dioddefwyr sy'n datgysylltu neu'n tynnu'n ôl wrth y system cyfiawnder troseddol.

Ymchwilio i drais a'i erlyn

Yr wyf yn derbyn bod angen newid brys, difrifol a sylfaenol yn y ffordd y mae achosion traïs yn cael eu hymchwilio a'u herlyn. O'r herwydd, y ddau ganlyniad cyntaf rwyf wedi'u gosod o dan fy nhrydedd flaenoriaeth yw:

- Gwell ansawdd ac amseroldeb o ran ymchwiliadau troseddol.
- Canlyniadau cyfiawnder troseddol mwy llwyddiannus, yn arbennig mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod a merched.

Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Yr wyf wedi ymrwymo i fesur cynnydd fy swyddfa i, Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched drwy annog ymagwedd iechyd cyhoeddus, ymyrraeth targedig a gorchmynion ataliol. Mae'n galonogol i mi fod y Prif Gwnstabl, wedi hynny, wedi gosod amcan uchelgeisiol i Heddlu Dyfed-Powys gael gwared ar drais domestig, stelcio ac aflonyddu.

Buddsoddi mewn technoleg a dadansoddeg

Fel cyn brif ddadansoddydd cudd-wybodaeth yr heddlu, rwy'n credu'n gryf mewn pwysigrwydd uchafu ein technoleg a'n galluoedd dadansoddol. Yr wyf yn llwyr fwriadu cefnogi buddsoddi yng nghynnydd gallu dadansoddol, datblygiadau TG a rhaglenni moderneiddio arloesol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth gadarn.

Ariannu

Mae'n galonogol iawn darllen am gefnogaeth Syr Tom tuag at edrych o'r newydd ar y fformiwla ariannu bresennol ar gyfer plismona. Dywedodd ei fod wir yn "hen bryd". Yr wyf wedi codi'r mater hwn drwy gydol fy 6 mlynedd yn y swydd, ac yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd diweddaraf, yr wyf wedi addo llobio dros setliad cyllido tymor hirach teg ar gyfer heddluoedd Cymru drwy gyflwyno'r achos i Gymru dderbyn dyraniad teg o gyllid sy'n deillio o unrhyw Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, adolygiad o fformiwla ariannu'r heddlu neu unrhyw ddsbarthiad adnoddau perthnasol arall.

Llety diogel ar gyfer plant

Mae hwn yn fater y mae fy mhartneriaid a minnau wedi bod yn gweithio'n bersonol i fynd i'r afael ag ef. Rwy'n gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn deall sut y medrwn sicrhau nad yw pobl ifainc yn cael eu dal yn ddiangen yn nalfa'r heddlu am fwy o amser nag sy'n ofynnol. Yn fwy cyffredinol, rwy'n awyddus i weld gwelliannau yn y ffordd yr ydym yn cefnogi, trin a dargyfeirio pobl ifainc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Yr wyf wedi ymrwymo i:

- Weithio i gadw pobl ifainc allan o'r system cyfiawnder troseddol drwy hyrwyddo model a hysbysir gan drawma sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Yn arbennig, byddaf yn cefnogi cyflwyno a gweithredu protocol cenedlaethol er mwyn lleihau troseddoli anghymesur plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal.
- Ymgyrchu i ddod â stigma oes cofnodion troseddol a gafwyd adeg plentyndod i ben. Byddaf yn lobïo Llywodraeth y DU i sicrhau bod ein system cofnodion troseddol yn unol â chenhedloedd Ewropeaidd eraill, gan gynnwys yr Alban, a chodi oed cyfrifoldeb troseddol o 10 oed i 12 oed o leiaf.

Yr wyf yn ddiolchgar i Syr Tom Winsor am ei ymdrech i gefnogi gwelliant parhaus plismona ym Mhrydain yn ystod ei gyfnod yn y swydd, a dymunaf y gorau iddo ym mhennod nesaf ei yrfa.



Dafydd Llywelyn

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys